

Llyfr Log Myfyrwyr Sgiliau Arian a Chyllid

Lefel 2 - Uned 5

Uned 5 Cynllunio Gweithgaredd Menter

5.1 Sefydlu menter

Yn yr uned hon, mae angen i chi ddychmygu eich bod yn sefydlu busnes bach neu'n codi arian ar gyfer rhywbeth. Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Business Enterprise* (FA6) a chwblhewch y gweithgareddau isod.

Os oes angen syniadau arnoch am fathau o fentrau gallai gwefan www.mysmallbiz.com roi syniadau i chi am weithgareddau gwneud elw neu ewch i www.raisingmoneyforcharity.org.uk ar gyfer mentrau codi arian.

I gael cymorth gyda'r math o sgiliau personol sydd eu hangen ar gofer rolau, gallech edrych ar raglen gerddoriaeth Quick Start Young Enterprise. - www.young-enterprise.org.uk/qsmusic/home.htm.

Defnyddiwch y tudalennau gwag ar ddiwedd yr uned hon os na fydd gennych ddigon o le.

5.1.1 Gweithgaredd 1


Mae angen i chi benderfynu am syniad ar gyfer eich gweithgaredd menter. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi feddwl am gryfderau a gwendidau eich syniadau i'ch helpu i benderfynu pa weithgaredd fyddai orau.

Gall eich gweithgaredd menter fod yn weithgaredd unigol neu'n weithgaredd grŵp.

a) Er mwyn dechrau cynllunio, cwblhewch y map meddwl isod.

i) Meddyliwch am ddau syniad gwahanol am weithgaredd menter yr hoffech ei gychwyn. (AC 1.1)

ii) Ystyriwch un rheswm pam y gallai pob un o'r gweithgareddau fod yn syniad da, ac un rheswm pam na fyddai pob un yn gweithio'n dda. (AC 1.1)



iii) Dewiswch y gweithgaredd menter gorau, a nodwch pa syniad y byddwch yn ei ddilyn i fyny:

..... (AC 1.1)

b) Nodwch y rolau pwysig sydd eu hangen i redeg y gweithgaredd menter rydych wedi'i ddewis a pha sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw. Er enghraifft, pwy sy'n gofalu am agweddau ariannol y fenter a pha sgiliau fyddai eu hangen arnyn nhw? (AC 2.1)

Rôl mewn menter	Sgiliau angenrheidiol	
	1.	2.
	1.	2.
	1.	2.
	1.	2.

5.1.2 Gweithgaredd 2

Bydd angen i chi wybod am y costau sydd ynghlwm wrth redeg eich gweithgaredd menter eich hun. Mae'r enghraifft isod yn rhoi syniad i chi o sut i nodi a chyfrifo eich costau a'ch incwm o werthiant ar gyfer menter.

Bydd angen i chi wybod:

- cost popeth fydd ei angen arnoch chi
- faint y byddwch yn ei godi am bob eitem
- sawl eitem rydych chi'n bwriadu eu gwerthu.

Mae'r enghraifft o weithgaredd menter a welir isod yn disgrifio gwneud byns i'w gwerthu amser coffi yn y coleg. Mae angen y canlynol i wneud 48 bynen:

Eitem	Pris
700g o flawd codi	£1.22
440g margarin meddal	£0.75
440g siwgr mân	£0.59
8 wy	£1.99
48 cas papur	£0.25
Cyfanswm cost	£4.80
Cost am un fynen (£4.80/48)	10c yr un

a) Mae modd gwneud 48 bynen gyda'r cynhwysion a restrir uchod. Cyfrifwch bris gwerthu ar gyfer pob bynen er mwyn gwneud elw o 15c ar bob bynen. (AC 3.21)

.....

b) Os byddwch yn gwerthu pedwair bynen, faint o elw fyddwch chi'n ei wneud? (AC 3.1)

£

c) Llenwch y siart isod i gofnodi'r costau ar gyfer eich dewis o weithgaredd. (AC 3.1)

Eitem	Pris
Cyfanswm cost	
Cost yr eitem	

ch) gan ddefnyddio'r un fformiwla ag a wnaethoch yn a) ar gyfer y 48 bynen, cyfrifwch faint o fyns y gallwch eu gwneud ac yna cyfrifwch bris gwerthu ar gyfer bob un o'ch byns er mwyn gwneud elw o 15c ar bob un ohonynt. (AC 3.21)

5.1.3 Gweithgaredd 3

Lluniwch daflen i hyrwyddo eich dewis o nwydd neu wasanaeth. (AC 4.1) Dylai hyn gynnwys:

- logo neu frandio
- disgrifiad eglur o'r nwydd neu'r gwasanaeth
- pris y nwydd neu'r gwasanaeth
- ble a phryd bydd y nwydd neu'r gwasanaeth ar gael.

Gallwch ddylunio eich taflen yn electronig yn Publisher neu Word ac ati. Os byddwch yn gwneud neu'n tynnu llun eich taflen fel poster, gallwch ei sganio neu dynnu ei lun (gan wneud yn siŵr eich bod yn dangos pob ochr!)

! Cofiwch gynnwys eich taflen gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau.